# Cylchred bywyd

| | |
|---|---|
| RHONA | Haia. Rhona sy ‘ma a dw i ym Margam i ddarganfod mwy am ecosystemau. Ac mae’r twyni tywod yma’n enghraifft wych. |
| DYN | Anwybydda fi. Wrthi’n chwilota ydw i, dyna’r cwbl. |
| RHONA | A finnau. Ond chwilota i’r ecosystem twyni tywod graddfa fach ydw i.<br><br>Dwy broses allweddol pob ecosystem - hyd yn oed rhai bach fel hyn - yw gweoedd bwydydd a chylchredau maetholion. A’r brif ffynhonnell egni ar gyfer popeth byw yw’r Haul. Mae planhigion yn amsugno golau’r Haul, sy’n ei droi’n egni cemegol drwy broses o’r enw ffotosynthesis.<br><br>Mae’r egni’n cael ei drosglwyddo i’r anifeiliaid sy’n bwyta planhigion, a lan y gadwyn fwyd i’r anifeiliaid sy’n eu bwyta nhw. |
| DYN | Ah, cylchred bywyd. |
| RHONA | Ac nid dyma’r unig ‘drysor’ ar gael ‘ma.<br><br>Mae cylchredau maetholion yn dibynnu ar yr hinsawdd. Mae planhigion angen mwynau sy’n cynnwys nitrogen a ffosffadau. Mae’r maetholion hyn mewn creigiau, dŵr a’r atmosffer. Mae’r planhigion yn cymryd maetholion o’r pridd. Ar ôl marw, mae dadelfenyddion, fel bacteria, yn dadelfennu’r planhigion, a’r maetholion yn cael eu rhyddhau yn ôl i’r pridd.<br><br>Mae’r maetholion yn cael eu hailgylchu pan mae planhigion newydd yn eu hamsugno o’r pridd, a’r cylch di-ddiwedd yn parhau. |
| DYN | Dipyn bach fel fi’n chwilota am drysor. |
| RHONA | Ac mae pobl yn gallu cael effaith anferth ar yr ecosystem. |


© Copyright BBC

| | |
|---|---|
| DYN | Dim fi. |
| RHONA | Mae’r effaith ddynol ar ecosystem fel hon yn cael ei hachosi’n bennaf gan ymwelwyr sy’n sathru’r twyni ac yn gyrru eu ceir ar y twyni, a baw ci.<br><br>Ond mae’r effaith ddynol yn gallu bod yn bositif hefyd.<br><br>Mae Ynyslas yng Ngheredigion yn enghraifft dda hefyd. Un ffordd o warchod ecosystem fregus fel hon yw creu llwybrau pren i rwystro mwy o sathru ac erydu, a rhoi cyfle i blanhigion sydd wedi eu niweidio i aildyfu.<br><br>Mae arwyddion amlwg sy'n rhwystro ceir rhag gyrru ar y twyni wedi bod yn effeithiol hyd yn hyn. Felly, mae cydbwysedd yr ecosystemau’n fregus iawn.<br><br>Ac felly, mae’r cylch di-ddiwedd yn parhau. |


**© Copyright BBC**